OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 379

# Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a'u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 3

Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth mewn perthynas ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

### Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen—

(a) yn Rhan 1, yn nhestun yr ail golofn yn rhes "Erthygl 10(3)", yn lle'r geiriau o "heb fod cytundeb" hyd at y diwedd rhodder "na chaniateir eu marchnata yn y Deyrnas Unedig, neu heb i awdurdod cymwys y wlad sy'n mewnforio gytuno'n benodol i awdurdodi'r mewnforio.";

(b) yn Rhan 2, yn nhestun yr ail golofn yn rhes "Erthygl 6", yn yr ail is-baragraff, hepgorer "ac i'r Comisiwn".

(**1**) O.S. 2005/1912 (Cy. 155)